WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cydnerthedd Ariannol: Cynllunio Arbedion – **Cyngor Sir y Fflint**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 671A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei broses cynllunio ariannol er mwyn cefnogi cydnerthedd ariannol yn well yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei broses cynllunio ariannol er mwyn cefnogi cydnerthedd ariannol yn well yn y dyfodol 7

Cyd-destun 7

Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16 9

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 83% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni 9

Trefniadau cynllunio ariannol 10

Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio'n ariannol ac mae'n bwriadu ymestyn cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i bum mlynedd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cynllunio dangosol presennol ar gyfer y blynyddoedd i ddod 10

Cynllun Arbedion 2016-17 12

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 90% o'i arbedion arfaethedig diwygiedig ar gyfer 2016-17 ond nid yw rhai o'i gynigion arbed wedi'u datblygu'n ddigon da pan gaiff y gyllideb ei chymeradwyo 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn barhaus. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol mae gwaith cynllunio ariannol da, ynghyd â chynlluniau arbedion tra ystyriol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

2 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y cyngor yn cefnogi cydnerthedd ariannol?

3 Mae gwaith cynllunio ariannol da:

- yn helpu cynghorau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

4 Mae gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor yn cynnwys deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a, lle y bo angen, ddatblygu strategaethau arbedion priodol.

5 Dylai blaenoriaethau strategol cyngor a'i iechyd ariannol fod yn sail ar gyfer penderfynu beth sy'n ymarferol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

6 Ni all cynghorau ragamcanu'n gywir y gyfran o'u hincwm a fydd yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru y tu hwnt i'r setliad presennol. Fodd bynnag, gallant ddefnyddio'r wybodaeth i ragweld amgylchiadau sy'n newid, pennu blaenoriaethau, gwneud dewisiadau a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau. Gallant gyfrifo faint o arian y byddai ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau (yn ôl prisiau cyfredol neu brisiau yn y dyfodol) ac ystyried senarios amgen o ran incwm a gwariant er mwyn nodi bylchau a pharatoi ar gyfer y dyfodol drwy ymchwilio i ddulliau gweithredu gwahanol.

7 Yn ystod 2015-16 cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor er mwyn asesu digonolrwydd ei drefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Cyflwynwyd adroddiadau lleol a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016. Daeth yr adroddiad cryno cenedlaethol i'r casgliad bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

8 Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, rydym wedi canolbwyntio ar waith i nodi arbedion, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Ystyriwyd i ba raddau y cyflawnodd Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16, y gwaith y mae wedi'i wneud i sicrhau cydnerthedd ariannol yn ystod cyfnod cynllunio ariannol 2016-17 a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.

9 Ystyriwyd tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 ac ystyriwyd y tybiaethau sy'n sail iddynt, ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.

10 Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2015-16 aethom ati i nodi'r hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd a sut y mae wedi ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â chynllunio ariannol os gwnaethom unrhyw rai.

11 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi disgrifio rhai o nodweddion allweddol cynllunio ariannol effeithiol – Nodweddion cynllunio ariannol da. Mae archwilwyr wedi defnyddio'r rhain a ffactorau eraill i lunio barn gytbwys ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol cyngor a gwerthuso gallu cyngor i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i arbedion arfaethedig.

12 Yn adolygiad 2015-16 daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau i wella ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol a'i fod yn atgyfnerthu ei allu i ymateb i'r heriau ariannol parhaus.

13 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei broses cynllunio ariannol er mwyn cefnogi cydnerthedd ariannol yn well yn y dyfodol.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

14 Byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac, os byddwn yn gwneud hynny, gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd amrywiaeth o gamau. Yn yr achos hwn mae cynnig ar gyfer gwella wedi'i wneud a byddem yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth yn ei gylch.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod pob cynnig arbed wedi'i ddatblygu'n ddigonol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y caiff ei weithredu ynddi. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei broses cynllunio ariannol er mwyn cefnogi cydnerthedd ariannol yn well yn y dyfodol

### Cyd-destun

15 Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn sgil y toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu'r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli eu cyllidebau, ond mae'r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad, rhwng 2013-14 a 2016-17, fod gostyngiad o £483 miliwn (10.9%) wedi bod yn y cyllid craidd hwn mewn termau real[1].

16 Mae'n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at anwadalrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae'r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am gydberthnasau economaidd a masnachol ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw'n newid enfawr ym mholisi cyhoeddus y DU[2] yn enwedig am mai cynghorau lleol yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru ac am eu bod darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.


[1] Mae cymharu cyllid craidd (Cyllid Allanol Cyfun) yn ystod y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a roddid ar wahân yn flaenorol mewn cyllid craidd. Er bod y broses hon o 'ddadneilltuo' grantiau yn arwain at gynnydd mewn cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau a ymgorfforwyd mewn cyllid craidd ers 2013-14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).

[2] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

17 Er bod yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi'i chael hi'n anodd hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn am fod newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau, er enghraifft. Fodd bynnag, golyga hyn mai gwasanaethau eraill sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r toriadau ac mae eu cyllidebau wedi gostwng 30% neu fwy mewn termau real.

18 Cafodd y Cyngor gymorth ariannol gwerth £185 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17. Mae hyn yn cyfateb i £1,196 fesul unigolyn yn y sir, sy'n is na chyfartaledd Cymru ac yn ostyngiad o 10.1%[3] y pen mewn termau real ers 2013-14.

Arddangosyn 2: Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17




Ffynhonnell: StatsCymru

[3] Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canrannol y pen yn amrywio o'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013-14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.

# Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16

## Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 83% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

19 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwlch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn neu incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr hyn a nodwyd gennym

20 Yn adolygiad 2015-16 nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 87% o'i arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ystod y flwyddyn.

21 Yn adolygiad 2016-17 gwnaethom nodi bod cyflawni arbedion arfaethedig wedi gostwng ychydig yn 2015-16 i 83%. Nodir ein canfyddiadau isod.

22 Cyflawnodd y Cyngor danwariant net o bron £1.5 miliwn ar ei gyllideb ar gyfer 2015-16 a nododd ei fod wedi cyflawni 83% o'i arbedion arfaethedig. Er gwaethaf peth gorwariant ar wasanaethau, cafwyd tanwariant net cyfunol ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol ac roedd incwm y Cyngor yn uwch na'r disgwyl.

23 Roedd strategaeth cyllideb arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cynnwys defnyddio £1 filiwn o gronfa wrth gefn a neilltuwyd a sefydlwyd i helpu i fantoli cyllidebau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Cyngor hefyd ddefnyddio £1.86 miliwn o'i Gronfa Hapddigwyddiadau wrth Gefn; yn ddiweddarach trosglwyddodd y gwarged cyllidebol diwedd blwyddyn o £1.5 miliwn yn ôl i'r Gronfa wrth Gefn, gan arwain at ddefnydd net o £371,000.

24 Cafodd y tangyflawniad arbedion gwerth £2.2 miliwn ei wrthbwyso gan danwariant cyllidebol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei arbedion yn ôl math, er enghraifft cydweithio, cynhyrchu incwm, adolygiad strwythurol ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

25 Caiff cynlluniau arbedion eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaenol ac maent yn rhan o'r broses monitro cyllidebau. Yn 2015-16, sefydlodd y Cyngor Fyrddau Rhaglenni er mwyn monitro cyllidebau ac arbedion portffolio. Mae'r Byrddau'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi'r cyfle i uwch swyddogion ac Aelodau adolygu perfformiad a'i herio. Rhydd adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i'r Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni rhagamcanion o ran arbedion a nodir amrywiadau yn erbyn targedau.

26 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o gynllunio'r gyllideb ac arbedion drwy fabwysiadu cynlluniau busnes tair blynedd treigl. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bortffolios nodi arbedion am gyfnod o dair blynedd. Mae'r Cyngor yn disgwyl ymestyn hyn i gwmpasu pum mlynedd, yn dilyn etholiadau cyngor ym mis Mai 2017.

# Trefniadau cynllunio ariannol

## Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio'n ariannol ac mae'n bwriadu ymestyn cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i bum mlynedd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cynllunio dangosol presennol ar gyfer y blynyddoedd i ddod

### Nodweddion cynllunio ariannol da

27 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio effeithiol ac integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.

28 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei adolygu'n aml a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.

29 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

30 Mae'n rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Yr hyn a nodwyd gennym

31 Yn adolygiad 2015-16 gwnaethom nodi bod y Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol ond roedd ei ddull o bennu cyllidebau ar gyfer 2015-16 yn un risg uchel.

32 Yn adolygiad 2016-17 gwnaethom nodi bod gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol. Mae cysylltiadau da rhwng ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i flaenoriaethau corfforaethol, a chaiff prosesau eu hategu gan bolisïau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i ddilyn trywydd risg uchel o ran cau cyfran o'i fwlch arbedion. Nodir ein canfyddiadau isod.

33 Mae cysylltiadau cryf rhwng prosesau cynllunio ariannol corfforaethol a thymor canolig y Cyngor. Mae gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i wyth blaenoriaeth strategol, sy'n rhan o'i amcanion gwella, wedi'u nodi'n glir yn ei Gynllun Gwella. Mae'r blaenoriaethau hyn yn gysylltiedig â chynlluniau busnes portffolios ac mae cyllidebau'n gydnaws â chefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth, nodau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

34 Mae'r Cyngor yn dechrau gwneud cysylltiadau â deddfwriaeth newydd yn ei drefniadau cynllunio ariannol. Hefyd, mae'n gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol er mwyn datblygu dull cyffredin o ymdrin â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

35 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cwmpasu cyfnod treigl o dair blynedd. Caiff adroddiad diweddaru ffurfiol sy'n dwyn y Strategaeth ymlaen ei gymeradwyo gan y Cabinet bob blwyddyn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Caiff tybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau mewn newidynnau allweddol a materion eraill sy'n dod i'r amlwg.

36 Mae rhagolygon y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gynhwysfawr a defnyddir meddalwedd modelu i gynnal dadansoddiad o sensitifrwydd yn erbyn diffygion cyllidebol rhagamcanol. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi bwlch o bron £21 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2017-18 i 2018-19. Mae'r Cyngor wedi nodi tua £10 miliwn o arbedion ar gyfer 2017-18, ac er bod y Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ariannu'r bwlch, ni roddir unrhyw fanylion penodol ar gyfer 2018-19 gan fod hyn y tu hwnt i gwmpas y Strategaeth bresennol. Mae'r Cyngor wrthi'n cynllunio i ymestyn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i bum mlynedd, sy'n gadarnhaol. Mae tair elfen i strategaeth ariannu'r Cyngor: diwygio gwasanaethau, stiwardiaeth ariannol gorfforaethol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Ym marn y Cyngor, mae ei strategaeth o ran cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn un risg uchel, ond caiff y dull o weithredu ei gefnogi gan Aelodau ac mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cael rhywfaint o lwyddiant. Mae'r Cyngor yn ystyried dulliau gweithredu amgen i gau'r bwlch.

37 Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cael ei hategu gan dybiaethau rhesymol a phriodol ar gyfer newidynnau allweddol megis arian grant, chwyddiant a chyfraddau llog. Mae effaith newidiadau demograffig a'r economi genedlaethol a lleol ar alw a phwysau o ran gwariant hefyd yn cael eu hasesu.

38 Cafodd Protocol Cronfeydd wrth Gefn a Balansau'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Medi 2015 ac mae'n nodi sut mae'r cyngor yn pennu, yn rheoli ac yn adolygu lefel Balans Cronfa'r Cyngor a'i Gronfeydd wrth Gefn sydd wedi'u Neilltuo. Cynhelir Balans Cronfa'r Cyngor ar lefel sy'n cyfateb i 2% o'i gyllideb flynyddol. Mae'r balans uwchlaw'r lefel sylfaenol hon yn cynrychioli Cronfa Hapddigwyddiadau wrth Gefn y Cyngor, a ddefnyddir i liniaru unrhyw orwariant cyllidebol. Ar ddiwedd 2015-16, roedd gan y Cyngor £10.1 miliwn yn ei Falans Cronfa: £5.7 miliwn ar lefel sylfaenol a £4.4 miliwn yn y Gronfa Hapddigwyddiadau wrth Gefn.

39 Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, mae'r Cyngor yn adolygu pob cronfa wrth gefn a balans ac yn penderfynu a oes angen cronfeydd wrth gefn i ategu'r gyllideb sylfaenol. Yn 2015-16, sefydlodd y Cyngor Gronfa Strategaeth Cyllidebau wrth Gefn er mwyn helpu i fantoli cyllidebau yn y tymor canolig. Yn ystod y flwyddyn, mae adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (CROSC) a'r Cabinet yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cronfeydd wrth gefn.

40 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cydnabod yr angen i gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl a datblygu polisi i gefnogi'r nod hwn. Yn ein hadroddiad Cydnerthedd Ariannol blaenorol, cafwyd cynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor gwblhau a gweithredu Polisi Cynhyrchu Incwm a Chodi Taliadau cynhwysfawr mewn da bryd i gefnogi cyllideb 2017-18. Mewn ymateb i hyn, penododd y Cyngor bartner allanol i gynnal adolygiad o ffioedd a thaliadau a llunio polisi incwm corfforaethol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn ystod hydref 2016 ac mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio ohono erbyn mis Rhagfyr. Gan fod y broses o gynllunio cyllideb 2017-18 eisoes ar waith, prin fydd effaith y polisi newydd ar y cylch cynllunio'r gyllideb hwn, ond dylai sicrhau yr eir i'r afael â chynhyrchu incwm mewn modd mwy cadarn a chyson yn y blynyddoedd i ddod.

41 Mae gan y Cyngor brosesau monitro ac adrodd ar y gyllideb effeithiol ar waith. Mae adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth ac maent yn galluogi Aelodau i graffu ar berfformiad yn erbyn y gyllideb a'i herio.

# Cynllun Arbedion 2016-17

## Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 90% o'i arbedion arfaethedig diwygiedig ar gyfer 2016-17 ond nid yw rhai o'i gynigion arbed wedi'u datblygu'n ddigon da pan gaiff y gyllideb ei chymeradwyo

### Nodweddion cynllunio ariannol da

42 Mae gan gynghorau sy'n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion tra ystyriol sy'n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi'u costio'n llawn ac sy'n cyd-fynd

â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

## Yr hyn a nodwyd gennym

43 Yn adolygiad 2016-17 gwnaethom nodi bod y Cyngor yn disgwyl cyflawni 90% o'i arbedion arfaethedig diwygiedig ond nid oedd rhai cynigion arbed wedi'u datblygu digon ar adeg pennu'r gyllideb. Nodir ein canfyddiadau isod.

44 Mae'r Cyngor yn disgwyl i bob gwasanaeth, heblaw am Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol, wneud arbedion o 30% o leiaf (tua £28 miliwn) rhwng 2015 a 2018. Mae'r arbedion hyn wedi cael eu datblygu drwy gynlluniau busnes portffolio tair blynedd. Mae'r Cyngor wedi nodi cynlluniau arbedion i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2016-17 ac wedi'u costio'n llawn. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn crynhoi £10 miliwn o opsiynau effeithlonrwydd dangosol ar gyfer 2017-18 a bydd proses cyllideb 2017-18, sydd ar waith ar hyn o bryd, yn nodi sut y caiff y bwlch sy'n weddill ei lenwi'n llawn. Mae adroddiad monitro ariannol diweddaraf y Cyngor yn rhagamcanu y cyflawnir 90% o'i gynlluniau arbedion diwygiedig ar gyfer 2016-17 ymhen blwyddyn.

45 Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei gynigion arbed yn ôl math yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth, a ddilynir gan adolygiad strwythurol, lleihau gwasanaethau a chynhyrchu incwm.

46 Caiff cynigion arbed eu hasesu o ran risg yn effeithiol fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Ar gyfer pob cynnig, mae'r cynllun arbedion yn nodi'r statws risg ar gyfer derbynioldeb a chyflawnadwyedd y costau sylfaenol, ynghyd â'u cadernid ariannol. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion arbed wedi'u datblygu'n dda ac maent yn ariannol gadarn, sy'n cefnogi rhagamcan y Cyngor o ran ei gyflawniad yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nododd dadansoddiad o'r cynigion sy'n rhagamcan y cânt eu tangyflawni yn 2016-17, fod 93% wedi'u categoreiddio'n rhai nad ydynt wedi'u costio'n llawn. Drwy gymeradwyo cynigion arbed nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn, gallai'r Cyngor beryglu ei allu i gyflawni ei darged o ran arbedion.

47 Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl gynigion arbed sy'n effeithio ar ddinasyddion neu randdeiliaid. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fireinio ei ddull o ymgysylltu â rhanddeiliad. Defnyddiwyd ei ymgynghoriad 'Dyma eich Cyfle Chi' i lywio cyllideb 2016-17 a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r opsiynau a'r heriau parhaus sy'n wynebu'r Cyngor.

48 Mae cynllun arbedion y Cyngor yn benodol ac yn fesuradwy, gan restru prosiectau arbed unigol a'u gwerth yn ôl portffolio. Caiff y cynllun ei gefnogi gan gynlluniau busnes portffolio hefyd. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar gyflawni cynigion arbed yn rheolaidd. Mae byrddau rhaglenni yn monitro cynnydd pob portffolio yn erbyn targedau arbedion a chyllidebol ac mae adroddiadau misol i'r Cabinet a CROSC yn cynnwys y diweddaraf am gyflawni cynlluniau arbedion.

49 Y tri chynnig i wneud arbedion yn 2016-17 a ystyriwyd gennym er mwyn profi'r tybiaethau sy'n sail iddynt ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig oedd:

- adeiladu cyfleuster trin gwastraff – £100,000 (Buddsoddi i Arbed);
- adleoli llyfrgelloedd – £30,000 (Lleihau Gwasanaeth); a
- gwasanaeth beiliaid mewnol – £60,000 (Cynhyrchu Incwm).

Ym mhob achos, nodwyd gennym fod arfarniadau o opsiynau wedi'u hategu gan dybiaethau rhesymol, bod i gynlluniau cyflawni amserlenni clir a bod y cynigion wedi'u hategu gan brosesau cymeradwyo ac ymgynghori priodol. Yn sgil oedi annisgwyl i'r broses o adeiladu'r cyfleuster trin gwastraff, mae'r Cyngor yn rhagweld mai dim ond £80,000 o'r arbediad arfaethedig a gyflawnir yn 2016-17 ond ceir arbediad am y flwyddyn gyfan yn 2017-18.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru